

Amgueddfa Cymru
Strategaeth Datblygu'r Casgliad
Ebrill 2017–Mawrth 2020

1. Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer datblygu casgliadau dros dair blynedd Ebrill 2017–Mawrth 2020. Mae ganddi chwe amcan strategol a fydd yn ein gorfodi i ailedrych o ddifri ar ein harferion casglu cyfredol a'r casgliad presennol. Lle y bo'n briodol gallwn sefydlu modelau gweithio newydd a meini prawf newydd ar gyfer casglu. Bydd hyn yn ein galluogi i ailsefydlu ein blaenoriaethau casglu. Erbyn 2020, mae'r Amgueddfa yn bwriadu sefydlu'r strwythurau a blaenoriaethau a fydd yn ei galluogi i symud ymlaen mewn ffyrdd newydd, cyffrous, cynaliadwy ac ystyrlon.

Mae'n bwysig bod yr Amgueddfa yn adolygu ei harferion casglu'n rheolaidd. Drwy edrych yn feirniadol ar beth sydd gennym yn y casgliad a sut caiff eitemau eu defnyddio, gallwn ailsefydlu sut, pam a beth y dylem fod yn ei gasglu dros y tair blynedd nesaf.

Datblygwyd y strategaeth hon mewn ymgynghoriad â staff, ein Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, partneriaid allanol a rhanddeiliaid ac ymwelwyr i'n hamgueddfeydd. Ystyriwyd ac ymgorfforwyd persbectif eang o safbwyntiau a barnau am rôl Amgueddfa Cymru yn y strategaeth hon. Daeth tri dull o gasglu i'r fei yn dilyn yr ymgynghoriad; casglu goddefol (neu adweitheddol), casglu gweithredol a chasglu ymgyrchol. Caiff pob dull ei fabwysiadu fel ffyrdd o gasglu gan yr Amgueddfa dros y tair blynedd nesaf.

Bydd y strategaeth yn cyflawni'r *Weledigaeth – Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*, a bydd yn chwarae rôl bwysig o ran cyfrannu at lwyddiant yr Amgueddfa wrth gyflawni amcanion Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae amgueddfeydd yn esblygu a newid dros amser, felly bydd y strategaeth yn sicrhau bod y casgliad yn aros yn ganolog wrth gyflwyno mentrau arwyddocaol mewn meysydd megis cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb. Bydd yn gweithio mewn ffyrdd newydd i gipio a chasglu'r byd rydym yn byw ynddo wrth barhau i fod yn storfa ar gyfer tystiolaeth o amgylchedd, hinsawdd, diwylliannau a bywydau pobl y gorffennol.

Bydd y strategaeth yn datblygu wrth i'r cynllun gweithredu gael ei roi ar waith, a bydd yn canolbwyntio ar y chwe amcan strategol canlynol:

Amcan Strategol 1

Adnabod ac archwilio cyfleoedd newydd i gasglu er mwyn cynrychioli'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Amcan Strategol 2

Sefydlu projectau cydweithredu agosach â sefydliadau, grwpiau a chymunedau eraill a fydd yn datblygu casgliad yr Amgueddfa er lles pobl Cymru.

Amcan Strategol 3

Datblygu ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod y casgliad yn ganolog i bopeth y mae'r Amgueddfa yn ei wneud, ac yn cynhyrchu cyfres o ddeialogau gydag ymwelwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio'r Amgueddfa.

Amcan Strategol 4

Cysylltu ymchwil â gweithgareddau casglu, wrth chwilio am gyfleoedd a chreu cyfleoedd i'w datblygu mewn meysydd newydd a chreu cysylltiadau arwyddocaol â'n rhaglen gyhoeddus.

Amcan Strategol 5

Sefydlu ffordd o weithio sy'n manteisio ar y cysyniad o gasgliad yr Amgueddfa fel endid sengl i wneud y gorau o gydweithredu rhwng ein meysydd casglu traddodiadol.

Amcan Strategol 6

Cynnal adolygiad rhyngddisgyblaethol o'r casgliad yn cysylltu hyn â gwaith y sefydliadau partner eraill.

Bydd y strategaeth yn arwain at fwy o ymgysylltu â chasgliad yr Amgueddfa, a bydd yn darparu mynediad ehangach a budd cyhoeddus. Bydd yn cipio gwybodaeth newydd sy'n dod i'r fei o ganlyniad i gyflwyno'r strategaeth a sicrhau ei bod ar gael, er mwyn cadw'r casgliad yn fyw ac yn gweithio'n weithredol i ni.

2. Cyflwyniad

Mae tua 5 miliwn o eitemau yng nghasgliad Amgueddfa Cymru yn cwmpasu amrywiol bynciau megis hanes cymdeithasol a diwydiannol, archaeoleg, celf a'r gwyddorau naturiol. Yr Amgueddfa yw'r brif storfa ar gyfer gwrthrychau tri dimensiwn sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru a deunydd rhyngwladol sy'n diffinio lle Cymru yn y byd.

Mae'r casgliad wrth wraidd popeth a wneir gan yr Amgueddfa. Heb gasgliad, nid amgueddfa fyddai'r sefydliad. Mae'n hanfodol felly bod y casgliad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni Gweledigaeth yr Amgueddfa fel adnodd er lles y cyhoedd, gan fod yr Amgueddfa yn cadw, rheoli a churadu eitemau'r casgliad yn enw'r cyhoedd. Mae gan y casgliad y potensial i ysbrydoli bywydau drwy'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig am addysgu, ymchwilio, caffael gwybodaeth, mwynhau, ymgysylltu, cyfranogi, ysgogi ac ysbrydoli. Gall rôl cadwraeth amgueddfa alluogi defnyddwyr i ddeall a gwneud synnwyr o'r byd maent yn byw ynddo. Gall gynnig cyfleoedd i bobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol i fyfyrion ar fywyd yn y gorffennol, a'i gymharu â bywyd yn y diwrnod presennol. Gall helpu pobl i ddeall geoamrywiaeth a bioamrywiaeth y Ddaear, a'u hysbysu o'r dewisiadau a wynebier o ran sut rydym yn byw ar y blaned. Bydd y strategaeth yn ymdrechu i adnabod ffyrdd newydd y gall y casgliad gynnig cyfleoedd am ymgysylltu a lles cyhoeddus uniongyrchol.

Bydd y strategaeth hon yn edrych yn feirniadol ar ddatblygu casgliadau er mwyn sicrhau bod y casgliad yn addas i'w ddefnyddio a bydd yn croesawu cyfleoedd i gasglu a defnyddio'r casgliad mewn ffyrdd newydd cyffrous. Bydd hefyd yn amlygu'r meysydd hynny lle mae'r Amgueddfa'n casglu'n effeithiol ar hyn o bryd a lle y bydd yn cynnal yr agweddau hyn, yn ogystal â'u cymhwyso at eitemau'r casgliad mewn meysydd eraill. Bydd yn amlinellu sut y bydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru drwy gyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru – *Ysbrydoli pobl, newid bywydau*. Mae gan yr hyn sy'n cael ei gasglu, a sut caiff ei gasglu, rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni amcanion y Weledigaeth (Atodiad A). Mae'r Weledigaeth hefyd yn cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth gyfuno'r strategaeth hon â'r Amcanion Llesiant drwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gall yr Amgueddfa sicrhau y caiff y casgliad ei ddefnyddio i gyflawni'r amcanion hyn (Atodiad B).

Mae'r strategaeth hefyd yn ymateb i ddeddfwriaeth a mentrau craidd eraill Llywodraeth Cymru a'u cefnogi; yn arbennig *Cyfuno: creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a bydd yn cyfrannu at gyflawni agweddau perthnasol Strategaeth Amgueddfeydd Cymru sydd i ddod.

3. Pwrpas Strategaeth Datblygu'r Casgliad

Mae Amgueddfa Cymru yn datblygu Strategaeth Datblygu'r Casgliad a fydd yn ein galluogi i ystyried yn feirniadol y ffyrdd rydym yn casglu. Byddwn yn ceisio datblygu ein casgliad mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'n hamcanion a'n dyheadau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r eitemau sydd eisoes gennym. Rhan lesol o'r broses hon yw adolygu ein harferion casglu traddodiadol er mwyn sicrhau y bydd y ffordd rydym yn casglu yn arwain at gasgliad mwy ystyrlon a defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod yna gyfleoedd newydd ar gyfer casglu sy'n adlewyrchu'r byd rydym yn byw ynddo mewn ffordd fwy cyfannol a chynnig dealltwriaeth well o gyd-destun. Trwy herio rhagdybiaethau am sut y dylem gasglu, gallwn ystyried mabwysiadu dull newydd a modern o gasglu i Gymru, a fydd yn galluogi'r

Amgueddfa i gasglu mewn ffyrdd sy'n cyflawni ein hamcanion a'n dyheadau fel amgueddfa fodern genedlaethol sy'n berthnasol yn yr unfed ganrif ar hugain.

Wrth i'r Amgueddfa gychwyn ar y daith hon, cawn ein hatgoffa fod Amgueddfa Cymru â'i gwreiddiau yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sefydlwyd yr Amgueddfa Genedlaethol ym 1907, a chafwyd casgliad yr hen Amgueddfa Caerdydd (a sefydlwyd ym 1868) ym 1912. Dros y ganrif ddiwethaf mae'r Amgueddfa wedi sefydlu casgliad craidd, drwy gasglu yn unol â'r cylch gorchwyl a nodwyd yn y siarter Frenhinol. Nododd adolygiad o'r Siarter Frenhinol yn 2006 yr angen am ddiweddarau dulliau casglu er mwyn adlewyrchu agwedd newidiol tuag at ddefnydd o gasgliad yr Amgueddfa.

Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad hon yn bwriadu ymgymryd ag adolygiad 360° o'n casgliad. Bydd yn cynnig cyfle i ddadansoddi perthnasedd y casgliad sydd gennym eisoes, yn ogystal â'n gorfodi i ystyried sut byddwn yn casglu a beth fyddwn yn ei gasglu yn y dyfodol. Bydd y strategaeth yn ymgysylltu yn llawn â staff, ein hymwelwyr, defnyddwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'r strategaeth a gyflwynwyd yma yn rhoi Amgueddfa Cymru ar daith tuag at ddatblygu agwedd newydd o ran datblygu casgliadau.

4. Dull Amgueddfa Cymru o Greu Strategaeth Datblygu'r Casgliad

Mae Amgueddfa Cymru newydd ddechrau ar gyfnod o fyfyrion beirniadol i ailystyried pam ein bod yn casglu, sut rydym yn casglu, beth fyddwn yn ei gasglu a phennu'r blaenoriaethau ar gyfer strategaeth yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd grŵp llywio rhyngddisgyblaethol o staff yn 2015, yn cynnig gwybodaeth arbenigol o ar draws y sefydliad. Mae'r grŵp hwn wedi gosod agenda'r adolygiad ac wedi llywio'r syniadau tu ôl i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

Dechreuodd y broses drwy ymgynghori â'n staff mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd ar draws safleoedd yr Amgueddfa. Mynychodd oddeutu chwarter y staff. Cynhaliwyd gweithdy pellach i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac Uwch Dîm Rheoli'r Amgueddfa. Rhannwyd canlyniadau'r gweithdai hyn mewn digwyddiadau ymgynghori ymwelwyr a gynhaliwyd mewn pum amgueddfa. Gofynnwyd i ymwelwyr ystyried sut mae'r Amgueddfa yn casglu a pham, yn eu barn nhw. Ymgysylltwyd â 158 o ymwelwyr yn y digwyddiadau hyn, a oedd un ai wedi llenwi holiadur neu gynnig eu barn ar gasglu. Mae'r adborth a'r awgrymiadau a gafwyd o'r ymgynghoriad hwn wedi llywio datblygiad y strategaeth hon.

Mae strategaethau a pholisïau canlynol yr Amgueddfa hefyd wedi llywio'r strategaeth: Strategaeth Ymchwil Cynulleidfaoedd (2015); Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol, (2015); Strategaeth Dehongli (2016); Strategaeth Arddangosfeydd ac Oriolau Dros Dro (2014); Strategaeth Cynnwys Digidol (2014) a'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad (2016). Mae wedi cael ei llywio ymhellach gan gyhoeddiadau am ddatblygu strategaethau datblygu casgliadau, yn arbennig Knell (2004); Lynch (2004); Gardner (2015) a Merriman (2015).

Mae ymgysylltu â staff wedi amlygu'r prif resymau pam y dylai'r Amgueddfa barhau i gasglu eitemau ar gyfer ei chasgliad. Mae'r prif resymau, yn nhrefn blaenoriaeth yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, i'w gweld isod. Mae Atodiad C yn dangos y rhesymau hyn yn erbyn yr Amcanion Llesiant:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd ac addysgu
- Cynrychioli treftadaeth Gymreig
- Cynrychioli hanes natur yng Nghymru
- Sicrhau eitemau i'w harddangos i'r cyhoedd
- Bod yn storfa ddiwylliant genedlaethol
- Cadw'r gorffennol i'r dyfodol
- Adeiladu perthynas gyda chymunedau a sefydliadau eraill
- Gwneud darganfyddiadau newydd
- Diweddarau casgliadau a'u cadw yn gyfredol
- Galluogi'r Amgueddfa i adrodd amrywiaeth ehangach o straeon
- Ysbrydoli creadigrwydd a sgiliau pobl eraill
- Gwneud gwaith ymchwil newydd
- Galluogi cymunedau a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn projectau casglu

Llywiwyd y strategaeth gan y datganiadau hyn.

Cafodd fersiwn drafft o'r strategaeth hon ei hadolygu gan gymheiriaid yn ystod trafodaethau gyda nifer o randdeiliaid allanol allweddol mewn gweithdai ac mewn sgysiau dros y ffôn. Mae'r cyfraniadau o'r digwyddiadau hyn wedi helpu i lywio'r amcanion strategol a'r cynllun gweithredu.

5. Sut mae Amgueddfa Cymru yn casglu ar hyn o bryd

Gall yr Amgueddfa ymgymryd â nifer o ddulliau o gasglu. Mae'r termau casglu *goddefol* (neu adweitheddol) a chasglu *gweithredol* wedi'u hymgorffori bellach yng ngeirfa amgueddfaol. Disgrifir y termau hyn yma (Longworth 1992). Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r *dull ymgyrchol* o gasglu wedi'i fabwysiadu gan rhai amgueddfeydd (Sandell a Dodd 2010). Mae'r strategaeth yn cydnabod y dylai casglu gydbwysu'r dulliau hyn i gyd. Bydd yr Amgueddfa yn mynd ar ôl dulliau newydd o gasglu, ac ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, bydd yn blaenoriaethu datblygu strategaeth i ymgorffori dull ymgyrchol o gasglu, a'i roi ar waith wrth gasglu ar draws pob disgyblaeth ac adran. Bydd y Gyfadran Casgliadau ac Ymchwil yn darparu canllawiau a hyfforddiant i'w staff ar ddulliau ymgyrchol o gasglu, a mapio defnydd y dull hwn gan adrannau ar hyn o bryd.

5.1 Casglu Goddefol (neu Adweitheddol)

Roedd y dull hwn yn gyffredin yn ystod y saith deg mlynedd gyntaf ym mywyd yr Amgueddfa, wrth iddi geisio sefydlu casgliad at ddibenion arddangos ac ymchwil. Mae casglu goddefol wedi golygu derbyn gwybodaeth am ddarganfyddiadau newydd gan rwydwaith o 'ohebwy'r Amgueddfaol, neu gan aelodau'r cyhoedd sy'n cynnig gwrthrychau neu gasgliadau personol i'r Amgueddfa. Bydd casglu goddefol, oportiwnistaidd o'r fath yn parhau o hyd, i gynnig cyfle i'r Amgueddfa ddysgu am wrthrychau anhysbys sydd heb eu cofnodi ar gyfer y casgliad, a'u caffael. Mae cyfleoedd yn codi a all gynnig gwrthrychau newydd ar gyfer y casgliad sydd y tu allan i reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol yr Amgueddfa. Wrth ymateb a chasglu mewn ffyrdd fel hyn, gall gwybodaeth newydd ddod i'r fei a all helpu i wella ein dealltwriaeth o amgylchedd diwylliannol, naturiol a hanesyddol Cymru. Mae felly yn hanfodol bwysig bod yr Amgueddfa yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i gasglu yn y dull hwn.

Er hyn, mae casglu goddefol yn gweithio ar ei amserlen ei hun, ac nid oes modd i'r Amgueddfa osod blaenoriaethau casglu wrth ddilyn y dull hwn. O ganlyniad, gall cyllideb gael ei gwastraffu wrth ymateb i'r hyn sy'n dod mewn. Tra bod angen i'r Amgueddfa fod yn hyblyg ac ymateb yn gyflym wrth i eitemau allweddol newydd ddod i'r fei, mae'n well o lawer os oes modd cynllunio cymaint â phosibl o ran casglu. Felly, tra bod hi'n bwysig bod yr Amgueddfa yn parhau i ymateb yn gyflym, yn lle derbyn popeth sy'n cael ei gynnig yn y ffordd hon, mae'n bwysig ystyried yn ofalus pwrpas yr eitem a sut y byddai modd ei ddefnyddio yn y casgliad.

Astudiaeth achos – casglu goddefol adeiladau hanesyddol

Yn 2007, cafodd Gwesty'r Vulcan ei brynu'n orfodol, gyda bwriad o'i ddymchwel. Cynhaliwyd ymgyrch flaenllaw, ond aflwyddiannus yn y pen draw, i achub yr adeilad yn ei leoliad gwreiddiol. Roedd y posibilrwydd o ddod â thafarn wledig i Sain Ffagan wedi'i ystyried ers y 1970au, ac roedd adeilad o'r fath yn cyd-fynd yn dda â'r thema o gasglu dinesig a nodwyd yn y 1990au. Roedd argaeledd y Vulcan, er mawr siom ei mynychwyr, drwy hap a damwain felly yn ffodus i Sain Ffagan a'i hymwelwyr.

5.2 Casglu Gweithredol

Drwy fabwysiadu dulliau gweithredol o gasglu, gall yr Amgueddfa osod blaenoriaethau a chanolbwyntio ei hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r ymgynghoriad wedi amlygu'r holl ffyrdd mae'r Amgueddfa yn casglu'n weithredol ar hyn o bryd drwy broiectau cyfranogol, cydguradu, ymchwil a phroiectau casglu digidol. Mae'r strategaeth yn cydnabod hyn, ac yn ceisio ffyrdd sy'n gwella gweithgareddau o'r fath drwy ddatblygu rhaglen fwy effeithiol o gasglu. Gellir cynllunio casglu gweithredol, gellir cael nawdd, gellir dosrannu cyllidebau ac amser a gosod dyddiadau ac amcanion o'r dechrau. O'r herwydd dylai fod yn ganolog i sut y caiff y casgliad ei ddatblygu.

Astudiaeth achos – casglu gweithredol ym Môr Iwerddon, Môr Hafren ac Aber Hafren

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae strategaeth casglu cyfoes i fapio a samplu anifeiliaid di-asgwrn-cefn morol yn y môr oddi ar arfordir Cymru wedi'i rhoi ar waith gan wyddonwyr yr Amgueddfa. Lansiwyd hon er mwyn sefydlu cofnod sylfaenol o amrywiaeth a dosraniad rhywogaethau. Hyd yn hyn, mae oddeutu 80% o ddyfroedd Cymru wedi'i samplu, gyda rhywogaethau newydd yn cael eu disgrifio, a'r potensial i ddisgrifio mwy fyth. Hyd yn hyn mae oddeutu 500,000 o sbesimenau wedi'u curadu yn y casgliadau, ac maent bellach ar gael drwy gronfeydd data ar-lein. Lle mae ail-fapio wedi cael ei wneud mewn rhai safleoedd, amlyga hyn y newidiadau mewn cynefin a chymuned dros amser, a defnyddir y wybodaeth hon mewn llawer o ardaloedd cadwraeth morol cyfoes yn nyfroedd Cymru.

5.3 Y Dull Ymgyrchol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o amgueddfeydd wedi bod yn arbrofi â dulliau newydd o weithio, ac maent yn awyddus i ddatblygu dulliau mwy cynhwysol o gynrychioli. Arfer amgueddfaol ymgyrchol yw enw'r dull hwn (Sandell a Dodd 2010). Mae arfer ymgyrchol yn ceisio ymgysylltu â chydardoldeb a'i archwilio, ond hefyd i ymateb iddo. Mae ymgysylltu â chymunedau sy'n agored i niwed ac amrywiol wedi agor drysau i ffyrdd newydd o ddatblygu

a dehongli casgliadau, wedi'u llywio gan awydd am gyfiawnder cymdeithasol ac ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau cymdeithasol.

Astudiaeth achos – Project *Clywedig Y Cyn Guddiedig*

Llwyddodd y project hwn, a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i gipio atgofion cuddiedig a phoenus gan amlaf gan gyn-gleifion ag anawsterau dysgu a staff o chwech o ysbytai arhosiad hir Cymru. Drwy gydweithio â Mencap Cymru, daeth Sain Ffagan yn storfa ar gyfer y cyfweiliadau hanes llafar a'r gwrthrychau a gasglwyd gan dîm gwaith maes y project. Roedd y cyfweiliadau hanes llafar yn seiliedig ar themâu'r oriel *Byw a Bod*, fel y bydd modd ymgorffori'r dystiolaeth a gasglwyd gan y cyfranogwyr yn yr orielau newydd.

6. Gweledigaeth ac Athroniaeth yr Amgueddfa

Nod Gweledigaeth deng mlynedd Amgueddfa Cymru – *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau* – yw dangos sut gall yr Amgueddfa wneud gwahaniaeth i Gymru drwy ysbrydoli pobl a newid bywydau (Atodiad A). Oherwydd bod y casgliadau yn ganolog i bopeth y mae'r Amgueddfa yn ei wneud, mae gan yr hyn sy'n cael ei gasglu rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni hyn. Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn mabwysiadu'r agenda ymgyrchol a nodwyd yn y Weledigaeth i gasglu at bwrpas. Nod hyn yw galluogi'r Amgueddfa, drwy gasglu, i gefnogi blaenoriaethau newydd o ran arddangosfeydd, i esblygu mewn meysydd newydd megis cyd-gynhyrchu a chydgasglu gyda chymunedau, a diwallu anghenion disgwyliadau cyhoeddus cyfnewidiol drwy gyflawni'n ddigidol. Bydd yn galluogi'r Amgueddfa i gyflawni ei rôl fel Amgueddfa Genedlaethol sy'n casglu eitemau mewn ffyrdd cyfrifol at ddibenion defnydd a lles y dyfodol. Mae hefyd yn helpu'r Amgueddfa i bennu'r blaenoriaethau o ran rheoli'r casgliad sydd ganddi eisoes.

Mae'r Weledigaeth hefyd yn cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth gyfuno'r strategaeth hon â'r Amcanion Llesiant drwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gall yr Amgueddfa sicrhau y caiff y casgliad ei ddefnyddio i gyflawni'r amcanion ehangach hyn gan Lywodraeth Cymru (Atodiad B).

7. Datblygu Casgliadau mewn Amgueddfeydd

Awgrymwyd y syniad o ailedrych ar ddulliau o gasglu mewn amgueddfeydd dros ddeng mlynedd yn ôl (Gardner a Merritt 2004; Knell 2004). Dechreuodd syniadau o'r fath yn yr Unol Daleithiau lle cyhoeddodd y Cynghrair Amgueddfeydd Americanaidd ei *Guide to Collections Planning* (2004). Mae'r llyfr hwn, ynghyd â llenyddiaeth berthnasol, wedi arwain at ailystyried dulliau traddodiadol mae amgueddfeydd yn eu defnyddio o ran casglu. Cyn hynny, prin iawn yr oedd astudiaethau o gasglu sefydliadol. Yn Sefydliad Smithsonian Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, cynhaliodd James B. Gardner adolygiad o ddull yr amgueddfa o gasglu. Arweiniodd hyn at ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer casglu. Yn y DU, mae Nick Merriman wedi cynnig dull deallusol o gasglu yn y dyfodol, ac mae wedi'i roi ar waith yn Amgueddfa Prifysgol Manceinion (Merriman 2015). Mae'r llenyddiaeth academaidd wedi esbonio pam fod angen adolygu casgliadau, ond hyd yn hyn ychydig iawn o amgueddfeydd sydd wedi ceisio adolygu eu strategaethau cyfredol neu roi newidiadau o'r fath ar waith.

Y tu ôl i'r llenyddiaeth y mae'r dybiaeth bod casglu gan amgueddfeydd yn draddodiadol wedi bwriadu bod yn gynhwysfawr a gwyddoniadurol ei natur. Mewn gwirionedd, caiff ei wneud gan unigolion allweddol lle y mae craidd y casgliad eisoes yn bodoli. O ganlyniad, mae'r casgliad wedi tueddu i ddatblygu yn ei feysydd cryfaf, wrth i staff yn y meysydd hyn gael eu penodi i ddatblygu a churadu'r casgliadau hyn ymhellach (Gardner 2015). Gan mlynedd yn ddiweddarach ac o ganlyniad i hyn, mae meysydd cryfaf y casgliad wedi parhau i gryfhau ac mae llai o adnoddau wedi cael eu buddsoddi ym meysydd gwannach y casgliad. I gymharu, mae cyfnodau wedi bod lle nad ydym wedi cynllunio na chanolbwyntio ein casglu, sydd wedi achosi i feysydd y casgliad dyfu mewn ffordd lai strwythuredig drwy dderbyn yn oddefol roddion i'r sefydliad. Mae meysydd o'r casgliad wedi datblygu drwy dderbyn yr hyn sy'n cael ei gynnig, yn hytrach na thrwy ddilyn rhaglen weithredol o gasglu a dethol yn fwy gofalus o'r hyn sy'n cael ei gynnig (Walker 2007).

Mae yna achosion lle y mae casglu strategol wedi cael ei wneud. Gellir meithrin perthnasau gyda rhoddwyr posibl mewn ffordd strategol fwriadol yn y tymor hir. Gall strategaethau casglu gweithredol o'r fath arwain at gaffael eitemau sengl pwysig neu grwpiau o eitemau i'r casgliad. Mae projectau ymchwil gweithredol wedi'u datblygu sydd wedi cynyddu gwybodaeth am gasgliadau sy'n bodoli eisoes, ac wedi arwain at eitemau newydd i gasgliad yr Amgueddfa mewn sawl maes newydd.

Astudiaeth achos – Rhodd y Chwiorydd Davies

Cyfrannodd Gwendoline a Margaret Davies (ym 1951 a 1963 yn eu tro) 260 o baentiadau, cerfluniau a darluniau drwy rodd i'r Amgueddfa. Roedd hyn yn cynnwys un o gasgliadau eithriadol Ewrop o gelf Argraffiadol ac Ôl-Argraffiadol. Daeth y rhoddion hyn yn dilyn cyfnod hirsefydlog o ymrwymiad y chwiorydd i fywyd diwylliannol Cymru a'u cefnogaeth a diddordeb parhaus yn Amgueddfa Cymru. Trawsnewidiodd y rhoddion hyn bwysigrwydd a phroffil cenedlaethol casgliadau celf yr Amgueddfa.

Camdybiaeth gyffredin yw bod rhoddion yn rhad ac am ddim (Knell 2004). Bydd gwrthrych a roddwyd i'r Amgueddfa yn costio'r un fath ag unrhyw eitem arall yn y casgliad, boed yn wrthrych sydd wedi'i gasglu'n bwrpasol neu'i brynu, oherwydd bydd costau parhaol ei storio a'i gadw'r un fath.

Gwelwyd cynnydd yn y nifer o astudiaethau ar gyfranogiad a chynhwysiad drwy waith Amgueddfaol dros yr ugain mlynedd diwethaf (Hooper Greenhill 1994; Black 2005; Watson 2007; Simon 2010; Sefydliad Paul Hamlyn 2016), ac ar ddatblygiad arfer amgueddfaol ymgyrchol (Sandell a Dodd 2010). Mae'r astudiaethau hyn wedi amlygu pwysigrwydd cysylltu unigolion a chymunedau â phob math o waith amgueddfaol, yn archwilio cyfrwng cymdeithasol amgueddfeydd a'u potensial i gefnogi cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb.

Bu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu casgliadau drwy ymgysylltu â'r cyhoedd (Lynch 2004), dulliau casglu ac arddangos y casgliadau (Sandahl *et al.* 2011), a rhannu awdurdod amgueddfaol (Adair *et al.* 2011). Mae ffyrdd newydd o edrych ar gasgliadau amgueddfaol, eu perthnasedd, eu creadigaeth a'u defnydd yn dod i'r wyneb.

Cyflwynwyd y cysyniad o gasgliad cenedlaethol sydd ar wasgar yng Nghymru yn 2002. Cynhaliwyd adolygiadau o gasgliadau a oedd eisoes yn bodoli, gan edrych ar ddosraniad ac arwyddocâd eitemau ym meysydd celf, ethnograffeg, archaeoleg a'r gwyddorau naturiol (Amgueddfeydd ac Orielaau Cenedlaethol Cymru 2002; Henderson *et al.* 2014). Cynhaliwyd

yr adolygiadau gwerthfawr hyn i archwilio'r ffynonellau cyfredol, yn hytrach nag ystyried datblygu casgliadau yn y dyfodol. Tra eu bod yn cynnig adolygiadau o'r adnodd amgueddfa Gymraeg ar draws Cymru gyfan, nid ydynt wastad wedi arwain at arweiniad neu atebion ar gyfer datblygu casgliadau yn y dyfodol. Cynhelir adolygiadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015* yn cynnig mewnwelediad i weithgaredd a thueddiadau o fewn y sector amgueddfeydd Gymraeg a all gael eu defnyddio i lywio strategaeth (Llywodraeth Cymru 2016).

Astudiaeth achos – Project *Hel Trysor; Hel Straeon*

Mae'r bartneriaeth *Hel Trysor; Hel Straeon* rhwng Amgueddfa Cymru, Cynllun Henebion Cludadwy Cymru, a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, sydd wedi'i hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn cefnogi pwysigrwydd treftadaeth archaeolegol gludadwy Cymru. Mae'r project yn galluogi pob amgueddfa ar draws Cymru i gaffael mwy a mwy o Drysorau a darganfyddiadau arwyddocaol eraill nad ydynt yn Drysorau yn swyddogol bob blwyddyn. Mae'r project yn hyrwyddo'r cysyniad o Gasgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar i Gymru drwy ysgogi casglu gwrthrychau archaeolegol yn strategol, datblygu sgiliau a chasglu ac arddangos rhwydweithiau sydd ar waith ar draws Cymru. Mae cyllideb gyswllt ar gael drwy'r project i gynnal diwrnodau hyfforddi a chasglu er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn.

Gan gydnabod bod dulliau datblygu casgliadau wedi newid yn y blynyddoedd diweddar, mae Amgueddfa Cymru yn bwriadu herio beth, pam a sut rydym yn casglu er mwyn symud ymlaen tuag at strategaeth fwy ystyrlon a strategaethol ar gyfer datblygu casgliadau.

8. Strategaeth Weithredol

Mae'r strategaeth hon yn strategaeth weithredol, gyda'r nod o gael ei datblygu wrth i'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hi gael ei rhoi ar waith. Mae'r strategaeth hon yn hyblyg ac mae wedi'i llunio er mwyn galluogi'r Amgueddfa i ymateb yn gyflym i faterion a digwyddiadau cyfredol a all gael eu hadlewyrchu yn y casgliad. Tra bod datblygu casgliadau wedi cael ei wneud gan bob adran guradurol ers dros gan mlynedd, nid yw casglu wedi cael ei adolygu yn ei gyfanrwydd. Mae strategaethau blaenorol wedi canolbwyntio ar baramedrau cyfreithiol casglu gydag adrannau unigol yn rhestru eu blaenoriaethau a dyheadau casglu ar wahân, yn hytrach na chyflwyno strategaeth casglu rhyng-gysylltiedig. Mae yna gyfleoedd i gasglu pethau newydd mewn ffyrdd newydd, yn ogystal â chynnal y dulliau dibynadwy, ond gan eu cymhwyso at wrthrychau'r casgliadau mewn disgyblaethau nad ydynt wedi'u harchwilio o'r blaen.

Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth yn cynnig fframwaith ar gyfer adolygiad o'r casgliadau sy'n bodoli eisoes, gan edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, er mwyn adnabod eu potensial ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth hon felly, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn anelu at adeiladu ar sefyllfa bresennol y casgliadau, ac edrych yn ofalus ar anghenion a blaenoriaethau casglu'r genedl er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa yn dilyn dull mwy modern, strategol, bwriadol a chynaliadwy wrth ddatblygu casgliadau. Bydd hyn yn galluogi eitemau i gael eu rhoi yn eu cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cefnogi dyheadau mentrau newydd sy'n codi o Strategaeth Amgueddfeydd Cymru'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD).

Bydd blynyddoedd cyntaf y broses o weithredu'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar brofi a threialu dulliau amrywiol o gasglu. Ymysg y rhain, bydd ymchwiliad i gyd-destun y Gymru gyfoes ac anghenion y gymdeithas yng Nghymru heddiw, a sut y gall ac y dylai'r Amgueddfa ymateb iddynt. Disgwylir felly mwy o newidiadau tua diwedd cyfnod y strategaeth, oherwydd bydd asesiadau'r dulliau newydd hyn yn llywio dulliau casglu yn y dyfodol.

9. Nodau Strategol

3. Mae chwe amcan strategol yn y strategaeth:

Amcan Strategol 1

Adnabod ac archwilio cyfleoedd newydd i gasglu er mwyn cynrychioli'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Amcan Strategol 2

Sefydlu projectau cydweithredu agosach â sefydliadau, grwpiau a chymunedau eraill a fydd yn datblygu casgliad yr Amgueddfa er lles pobl Cymru.

Amcan Strategol 3

Datblygu ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod y casgliad yn ganolog i bopeth y mae'r Amgueddfa yn ei wneud, ac yn cynhyrchu cyfres o ddeialogau gydag ymwelwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio'r Amgueddfa.

Amcan Strategol 4

Cysylltu ymchwil â gweithgareddau casglu, wrth chwilio am gyfleoedd a chreu cyfleoedd i'w datblygu mewn meysydd newydd a chreu cysylltiadau arwyddocaol â'n rhaglen gyhoeddus.

Amcan Strategol 5

Sefydlu ffordd o weithio sy'n manteisio ar y cysyniad o gasgliad yr Amgueddfa fel endid sengl i wneud y gorau o gydweithredu rhwng ein meysydd casglu traddodiadol.

Amcan Strategol 6

Cynnal adolygiad rhyngddisgyblaethol o'r casgliad yn cysylltu hyn â gwaith y sefydliadau partner eraill.

9.1 Amcan Strategol 1

Adnabod ac archwilio cyfleoedd newydd i gasglu er mwyn cynrychioli'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae gan yr Amgueddfa ddulliau sefydlog o gasglu sydd wedi gweithio'n dda dros y can mlynedd gyntaf o gasglu. Gall llawer o'r dulliau hyn gael eu hasesu a'u dadansoddi o ran eu llwyddiant wrth gynnig gwybodaeth berthnasol newydd. Mae'r dulliau hefyd yn rhan bwysig o hanes yr Amgueddfa, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer astudiaethau mewn hanesyddiaeth o'r sefydliad a'i gasgliadau yn y dyfodol. Bydd llawer o gyfleoedd i'r Amgueddfa ddefnyddio'r casgliad sydd ganddi i adlewyrchu'r gorffennol ac i'r Amgueddfa gofnodi'r dulliau hyn i hysbysu ymchwilwyr yn y dyfodol. Mae cipio'r gweithgareddau casglu yn y casgliad ei hun yn ddull dilys o wella'r gronfa ddata wybodaeth hon. Drwy gynnig hanes adlewyrchol o gasglu, gall yr Amgueddfa ystyried yn ofalus y ffordd orau o gasglu ar gyfer y dyfodol.

Yn draddodiadol, mae'r Amgueddfa wedi casglu ar sawl lefel gyda gwahanol ddisgyblaethau yn defnyddio gwahanol dulliau o gasglu ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Cafwyd rhaglen weithredol o gasglu hanes natur a chelf o bob cwr o'r byd, sy'n parhau hyd heddiw. Mae casglu o'r fath yn helpu i roi cyd-destun i fioamrywiaeth a geoamrywiaeth Cymru, ac yn amlygu lle Cymru o fewn y byd ehangach. Yn yr un ffordd, mae'r Adran Hanes ac Archaeolegers y 1930au wedi canolbwyntio ar gasglu eitemau sydd wedi'u defnyddio yn bennaf yng Nghymru, sydd wedi dod o Gymru neu wedi'u darganfod yng Nghymru. Mae gan y casgliad hwn eitemau o arwyddocâd rhyngwladol, sy'n rhoi ein casgliad mewn cyd-destun byd-eang o gynhanes a hanes dynol. Bydd y strategaeth yn nodi pryd a ble y dylai pob dull gael ei ddefnyddio, a bydd yn adnabod a chydweithio â sefydliadau eraill sy'n casglu yn y dulliau hyn. Bydd hynny yn sicrhau y gall eitemau gael eu cadw yn y lleoliad mwyaf addas er mwyn iddynt gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer ymchwil neu ymgysylltu yn y dyfodol.

Bydd y strategaeth yn adnabod meysydd a methodolegau casglu newydd lle nad yw'r Amgueddfa, yn draddodiadol, wedi casglu'n weithredol. I ddechrau, caiff meysydd megis dylunio, ffotograffiaeth, hanes Cymru a'r Gymru gyfoes eu harchwilio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu dulliau newydd o gasglu a chynnig cyfleoedd i hyfforddi staff i weithio mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u dilyn yn eang o'r blaen.

Bydd yr Amgueddfa yn cynnal dadleuon a thrafodaethau a fydd yn ceisio pennu'r rôl y mae Cymru wedi'i chwarae, a dal yn ei chwarae yn y byd, a'r dylanwadau y mae Cymru yn eu cael ac wedi'u cael ar y byd, yn arbennig o ran llywio casglu cyfoes. Bydd hyn yn ein helpu i siapio a diffinio polisi casglu ehangach i gefnogi amgueddfeydd Cymreig wrth gasglu'r hyn sy'n adlewyrchu Cymru.

Rôl bwysig arall y strategaeth yw amlygu pwysigrwydd casglu'n strategol mewn ffyrdd newydd. Os yw'r Amgueddfa i fod yn effeithiol wrth gasglu ar gyfer y dyfodol, rhaid iddi aros yn gyfoes wrth ddilyn tirweddau technolegol newidiol drwy gasglu mewn ffyrdd newydd. Nid yw'r Amgueddfa wedi casglu llawer o ddeunydd digidol yn draddodiadol, ond mae yna ddigon o gyfleoedd i wneud. Mae'n bwysig bod yr Amgueddfa yn casglu deunydd digidol gwreiddiol yn ogystal ag eitemau materol, gan fod cymaint o weithgareddau'n cael eu gwneud yn ddigidol bellach. Yn ogystal ag eitemau digidol megis gemau cyfrifiadur neu wefannau, mae casglu digidol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer casglu gwybodaeth drwy gyfrannu torfol, er mwyn casglu mathau newydd o eitemau, e.e. sganiau tri dimensiwn neu i gaffael data ynglŷn â chyd-destunau ehangach gwrthrychau materol. Mae hefyd yn cynnig cyfle i'n casgliad gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, amrywiol, byd-eang a rhyngwladol. Bydd y strategaeth hon felly yn awgrymu ffyrdd o ymdrin â chasglu digidol er mwyn sicrhau bod y casgliad yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol, a bydd yn cyflawni'i rhwymedigaeth i gasglu ar gyfer cenedlaethau o ddefnyddwyr ac ymwelwyr yr Amgueddfa yn y dyfodol.

Astudiaeth achos – Ffotograffiaeth

Mae'n bosibl bydd casglu ffotograffiaeth yn dod ag amrywiaeth o gyfryngau gwahanol i mewn i'r casgliad. Gall gasgliadau ffotograffig gynnwys ffotograffau materol, negatifau neu ffeiliau digidol a all fod gan un ffotograffydd neu sawl un. Ar hyn o bryd, mae'r casgliadau hyn wedi'u dosrannu rhwng sawl adran, ac felly mae yna gyfle i gael dull mwy strategol o gasglu yn y dyfodol. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei greu yn ddigidol, a bydd angen dulliau newydd o'i storio ac o gael mynediad at y casgliad a'i ddefnyddio.

9.2. Amcan Strategol 2

Sefydlu projectau cydweithredu agosach â sefydliadau, grwpiau a chymunedau eraill a fydd yn datblygu casgliad yr Amgueddfa er lles pobl Cymru.

Mae'n bwysig bod Amgueddfa Cymru yn cydweithio'n agos â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae ymgynghoriadau wedi amlygu sut y gall casgliad cenedlaethol sydd ar wasgar gael ei sefydlu ar draws Cymru o edrych yn ôl, gan nodi eitemau allweddol ac arwyddocaol mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd a chasgliadau archifol o gwmpas y wlad. Mae yna gyfleoedd bellach i ystyried ffyrdd mwy gweithredol o gydweithio ag amgueddfeydd a sefydliadau eraill ar draws Cymru, i ddatblygu dull mwy ystyriol o greu casgliad cenedlaethol sydd ar wasgar yn y dyfodol.

Drwy ddatblygu cydweithrediad â sefydliadau eraill, gallwn gyfrannu at agenda ehangach, er enghraifft, defnyddio ein casgliad i bennu effaith newid hinsawdd ar amgylchedd Cymru neu chwilio am ffyrdd newydd i gasglu ar ran cyfiawnder cymdeithasol. Gall hyn gynnig cyfleoedd i ni gynnig mewnbyn wrth i Lywodraeth Cymru lunio polisiau, a chyfrannu at gyflawni agweddau perthnasol Strategaeth Amgueddfeydd Cymru'r dyfodol.

Mae'r cynllun yn bwriadu adnabod y sefydliadau lle mae partneriaethau eisoes yn bodoli rhyngom, er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i edrych yn gyfannol ar gasglu rhwng sefydliadau, grwpiau a chymunedau. Bydd y strategaeth yn creu cyfleoedd i ysgogi cytundebau, neu strategaethau ar draws sefydliadau ar gyfer casglu a fydd yn gynaliadwy ac a fydd yn cynyddu'r defnydd o adnoddau mewn meysydd blaenoriaeth. Drwy ddechrau trafodaethau gyda sefydliadau partner am beth fydd Amgueddfa Cymru yn ei gasglu neu beidio, gallwn weithio tuag at symud y casgliad cenedlaethol sydd ar wasgar yn ei flaen ar gyfer y dyfodol.

Drwy ddatblygu rhaglen gydweithio gyda chymunedau er mwyn iddynt gael benthyg eitemau a'u harddangos, mae yna gyfleoedd i arddangos gwaith cymunedau, i gydgyraddu a chydgyflwyno eitemau o'u casgliadau nhw ochr yn ochr ag eitemau eraill yr Amgueddfa. Gall gweithio yn y ffordd hon ysgogi creadigrwydd unigolion neu bwyllgorau ac arwain at waith newydd yn cael ei greu. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn arwain at feysydd casglu newydd i'r Amgueddfa.

Gall gweithio gyda chyllidwyr gynnig cyfleoedd newydd i sicrhau eitemau i'r casgliadau. Drwy ddatblygu cynllun gweithredu, gallwn ddynodi sefydliadau ac unigolion a all gefnogi cynllun datblygu casgliadau'r Amgueddfa drwy gyllido casglu mewn meysydd penodol. Mae cynllun i adnabod cyllidwyr a gweithio gyda nhw yn bwysig iawn wrth sicrhau bod casgliadau'n datblygu ymhellach yn y dyfodol. Gall gweithio gyda chyllidwyr gynnig cyfleoedd newydd am ymgysylltu defnyddwyr newydd â'r casgliadau. Bydd y strategaeth felly yn ymdrechu i osod ffyrdd newydd o adnabod cyllidwyr ar waith sy'n cynyddu ein defnydd o'r casgliad.

Astudiaeth achos – Brymbo

Lleoliad arbennig ger Wrecsam yw Coedwig Ffosilau Brymbo, gyda ffosilau planhigion 300 miliwn mlwydd oed mewn cyflwr da iawn. Casglwyd sbesimenau gan Grŵp Treftadaeth Brymbo gyda chefnogaeth perchnogion y safle, Brymbo Developments Limited. Roedd angen cartref parhaol ar gyfer y casgliad, ac Amgueddfa Cymru oedd yr unig leoliad yng Nghymru gyda'r cyfleusterau ac arbenigedd mewn cadw'r math hwn o ddefnydd. Ar y cyd â Grŵp Treftadaeth Brymbo, rydym wedi cydguradu'r casgliad a datblygu arddangosfa gydag Amgueddfa Wrecsam yn datgelu stori'r goedwig ffosilau i'r gymuned. Mae'r berthynas hon yn parhau wrth i ni gydweithio i ddatblygu'r safle ymhellach.

9.3 Amcan Strategol 3

Datblygu ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod y casgliad yn ganolog i bopeth y mae'r Amgueddfa yn ei wneud, ac yn cynhyrchu cyfres o ddeialogau gydag ymwelwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio'r Amgueddfa.

Mae casgliad yr Amgueddfa yn hollbwysig wrth gyflawni amcanion craidd yr Amgueddfa. Wrth i ni fod yn fwy gweithredol drwy fabwysiadu ffyrdd cyfranogol o weithio, rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio a datblygu ein casgliad. Mae ymgynghori ag ymwelwyr yn dangos bod yna awydd cymryd rhan ymysg y cyhoedd yng ngwaith yr Amgueddfa, wrth gyfranogi a chynorthwyo â datblygiad y casgliad. Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn cynnig llawer o gyfleoedd i Amgueddfa Cymru weithio mewn ffyrdd cyfranogol gyda'n hymwelwyr a'n defnyddwyr, er mwyn adnabod meysydd blaenoriaeth a fydd yn cyflawni hynny. Awgryma ymgynghori y gall cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchoedd gan y wasg helpu i gyrraedd pobl a all ymgysylltu â'r Amgueddfa a chynorthwyo yn y broses gasglu mewn sawl ffordd. Hefyd gall rhannu gwybodaeth am ein casgliadau arwain at ddatblygu cynnwys curadurol newydd sydd wedyn yn gallu ysgogi deialog ac arwain at gyfranogiad mwy.

Mae'r strategaeth hefyd yn amlygu'r cyfleoedd sydd yna i weithio mewn ffyrdd newydd gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau partner sy'n gallu hwyluso rhaglen gyflawni eang gyda ni. Drwy weithio fel hyn, gall yr Amgueddfa gaffael eitemau craidd i gyflawni'r amcanion datblygu casgliadau, a hefyd gyflawni strategaethau eraill yr Amgueddfa. Bydd partneriaethau eisoes ar waith rhwng gwahanol Adranau'r Amgueddfa a phartneriaid allanol. Mae angen meithrin y partneriaethau hyn ymhellach mewn ffyrdd sy'n galluogi'r Amgueddfa i gasglu deilliannau projectau cydweithredol mewn ffyrdd newydd a strategol.

Drwy fabwysiadu dulliau newydd, gallwn adnabod ffyrdd o weithio gyda chymunedau sy'n arwain at fwy o ddefnydd a gwerth o'r hyn sydd gennym eisoes, drwy ddefnyddio'r casgliad mewn ffyrdd newydd. Gall enghreifftiau fod mewn meysydd megis:

- Cefnogi llesiant pobl a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, e.e. gweithio ar gynaliadwyedd a dementia.
- Mynd i'r afael â rhagfarn, e.e. drwy ymgysylltu cynulleidfaoedd mewn trafodaethau sy'n ymwneud â hawliau dynol cyfoes.
- Cefnogi'r agenda sgiliau, e.e. lleoliadau gwaith a phrentisiaethau yn gweithio gyda chasgliadau.
- Annog defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol.
- Addysgu ar leddfu newid hinsawdd yn y dyfodol.
- Amrywio'r casgliadau a naratif/dehongliadau, e.e. drwy gydguradu.

Drwy ddewis projectau penodol gallwn ddatblygu dull mwy cyfranogol o gasglu. Gall y dull hwn gynnwys hel atgofion, casglu recordiadau, archifau neu eitemau ar bwnc neu thema benodol i gyflawni amcan penodol. Gall fod yn broject gwyddoniaeth gymunedol sy'n ymgysylltu'r cyhoedd â gweithgareddau casglu ac ymchwil. Gall dull o'r fath gyflawni nifer o amcanion e.e. ymgysylltu â phobl na fyddent fel arfer yn defnyddio'r amgueddfa, casglu mewn meysydd newydd, neu ddarparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn project ymchwil fel aelodau tîm project. Gall dulliau casglu o'r fath roi pobl yng nghanol ein gweithgareddau, a gellir eu mabwysiadu mewn ffyrdd sydd o fudd i'r gymdeithas yn ogystal â'r Amgueddfa, ac arwain at gofnod parhaol yn y casgliad. Drwy gipio'r broses ymgysylltu gymunedol, drwy recordiadau clyweledol a chlywedol yn ogystal â'r deunydd a ddefnyddir ac a gynhyrchir, câi eitemau newydd eu casglu a all gynnig potensial ar gyfer deilliannau cydguradu yn y dyfodol,

megis arddangosfeydd cymunedol a deilliannau dysgu a chyfranogi eraill. Mae'r Amgueddfa newydd dderbyn nawdd gan Sefydliad Paul Hamlyn i estyn cyfrwng cymunedol gyda'r casgliadau drwy gyd-gynhyrchu. Y nod yw datblygu dull clir, methodolegol o amrywio'r casgliadau a dehongliadau cyswllt drwy weithio gyda phartneriaid drwy'r Fforwm Amrywiaeth.

Bydd adolygiad o'r casgliad yn amlygu sut mae Cymru wedi newid drwy gydol y cyfnod y mae'r Amgueddfa wedi bod yn casglu. Bydd yr adolygiad yn dangos pa mor dda mae'r casgliadau'n adlewyrchu newid o'r fath ac yn galluogi'r Amgueddfa i ofyn cwestiynau newydd am beth ddylen ni ei gasglu er mwyn adlewyrchu newid cymdeithasol fel hwn. Yn ei flwyddyn gyntaf, bydd y Cynllun Gweithredu yn adnabod anghenion cymdeithas mewn ffordd drylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r casgliad sydd gennym eisoes hefyd yn cynnig potensial ar gyfer gweithio mewn ffyrdd newydd. Mae'n cynnig cyfleoedd i ymchwilio i hanes, datblygiad a strwythur y casgliad fel y mae heddiw. Gellir datguddio gwybodaeth yn y casgliad er mwyn cynnig potensial mewn gwahanol ffyrdd. Gall hyn fod o ymchwil newydd neu drwy gyfuno a chymharu casgliadau â chasgliadau amgueddfeydd neu berchnogion preifat eraill. Gellir gwireddu'r cyfleoedd hyn mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, fel projectau gwirfoddoli neu hyfforddi. Mae yna gyfleoedd i ddefnyddio'r casgliad i ymgysylltu â phobl ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, i gael gwybodaeth am wrthrych penodol neu'i hanes drwy gyfrannu torfol. Mae'r strategaeth felly yn cynnig dulliau a fydd yn estyn defnydd eitem, ac felly ei effaith y tu hwnt i'r rhai a ystyrir fel arfer.

Astudiaeth achos – Cydguradu ar gyfer y Project Creu Hanes

Roedd y rhaglen cydguradu Creu Hanes yn cynnwys gweithio gyda grwpiau cymunedol ac unigolion wedi'u targedu er mwyn cyd-gynhyrchu cynnwys clyweledol ar gyfer yr orielau newydd yn Sain Ffagan, yn sicrhau y caiff lleisiau amryfal a chyfoes eu cynrychioli yn yr arddangosfeydd a chasgliad newydd. Cafodd aelodau cynllun Llysgenhadon Ifanc Blaenafon hyfforddiant hanes llafar, a chawsant eu ffilmio'n cyfweld ag aelodau hŷn eu cymuned am streic y glowyr ym 1984–85. Defnyddiwyd gwrthrychau o'r casgliad i herio rhagdybiaethau ac ysgogi trafodaethau. Mae'r cyfweiliadau wedi'u cadw yn yr archif clyweledol, a chaiff naratifau newydd a chynhyrchir sy'n ymwneud â'r casgliad eu hychwanegu at gofnodion cyfredol y gwrthrychau hyn.

9.4 Amcan Strategol 4

Cysylltu ymchwil â gweithgareddau casglu, wrth chwilio am gyfleoedd a chreu cyfleoedd i'w datblygu mewn meysydd newydd a chreu cysylltiadau arwyddocaol â'n rhaglen gyhoeddus.

Bydd ymchwil yn taseilio'r holl gasglu newydd, yn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn effeithiol, gyda chanolbwynt clir yn y meysydd y mae'n ymwneud â nhw. Gall gwybodaeth am ein casgliad cyfredol, a all llywio gweithgaredd casglu yn y dyfodol, ddeillio o ymchwil. Gall ymchwil arwain at ddarganfod rhywogaeth newydd neu fathau newydd o artefact. Gall hynny ddarparu tystiolaeth newydd am fioamrywiaeth, geoamrywiaeth neu hanes cymunedol Cymru. Gall ymchwil ganolbwyntio ar feysydd casglu newydd, megis targedu meysydd casglu nad ydynt wedi'u harchwilio o'r blaen. Gellir teilwra ymchwil er mwyn casglu mewn maes penodol yn ymwneud â hanes diwylliannol, hanesyddol neu amgylcheddol Cymru.

Gellir datblygu rhaglenni casglu sy'n tarddu'n uniongyrchol o ymchwil newydd, drwy greu cyfleoedd newydd am gasglu, yn arbennig lle y mae'n ymwneud ag ymchwil. Bydd staff yr Amgueddfa yn ymgymryd â rhywfaint o'r ymchwil hwn, ond elfen yr un mor bwysig yw'r deilliannau ymchwil a wneir gan eraill, gan gynnwys Prifysgolion, Adrannau Llywodraeth Cymru eraill ac Asiantaethau. Dylai hynny arwain at brojectau newydd yn cael eu datblygu, galluogi casglu rhyngddisgyblaethol yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion rhagddiffiniedig a deilliannau, gyda chofnod parhaol ar gyfer casgliad yr Amgueddfa. Yn ogystal â dechrau projectau ymchwil newydd, mae'r un mor bwysig bod yr Amgueddfa yn adeiladu ar yr ymchwil sydd wrthi'n cael ei wneud ar draws y sectorau Amgueddfa a Phrifysgol, er mwyn archwilio dulliau newydd ac arwain at wybodaeth newydd. Caiff y Strategaeth Datblygu'r Casgliad ei rhoi ar waith ar y cyd â Strategaeth Ymchwil yr Amgueddfa.

Gellir defnyddio technegau ymchwil er mwyn cyflawni adroddiadau casgliadau effeithiol. Nid oedd yn anghyffredin i gasgliad gael ei rannu rhwng sawl sefydliad yn y gorffennol. Gall adolygiad, yn aml wedi'i ysgogi gan broject ymchwil, ddod ag eitemau'n ôl ynghyd naill ai yn ddigidol neu'n gorfforol mewn arddangosfa. Gall adolygiadau casgliad o'r fath achosi deilliannau newydd, perthnasau newydd rhwng y sefydliadau a rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio a dod i ddeall y casgliad. Bydd deilliannau ymchwil o'r fath yn helpu i gyflawni'r casgliad cenedlaethol sydd ar wasgar, a gellir eu rhannu ar-lein ar wefan neu drwy gyhoeddi cofnodion digidol yr eitemau, neu yn gorfforol gydag eitemau'n ôl at ei gilydd mewn un man, neu mewn arddangosfa neu oriel.

Rhaid cysylltu gweithgareddau ymchwil a chasglu â rhaglenni eraill sydd ar waith ar draws yr Amgueddfa. Gall hyn arwain at ddeilliannau megis cyhoeddiadau academaidd neu boblogaidd, digwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir ar safleoedd yr Amgueddfa a thu hwnt. Gall arddangosfeydd a rhaglenni cyhoeddus cysylltiedig ddeillio o hyn, gan gynnwys digwyddiadau a chyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned. Rhaid i'r broses gasglu felly ymwneud yn llawn ag agweddau eraill ar waith yr Amgueddfa, er mwyn sicrhau bod yna gysylltiad a sefydlir o ddechrau project, a bod y bobl berthnasol yn rhan o'r gwaith. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfathrebu ar waith drwy gydol y project a gallwn fanteisio ar gyfleoedd a all ddatblygu deilliannau cydweithredol er lles y cyhoedd wrth iddynt godi.

Gall ymchwil a chasglu hefyd fod yn ddeiliant o'n rhaglenni cyhoeddus. Drwy greu arddangosfa ar bwnc penodol, mae'n bosibl y bydd angen ymgymryd â gweithgareddau ymchwilio a chasglu newydd er mwyn caffael eitemau newydd i'w harddangos a dweud stori fwy cyflawn nag y byddai modd ei hadrodd gyda'r casgliad cyfredol yn ei gyflwr presennol.

Astudiaeth achos – Ivor Davies

Crëwyd yr arddangosfa *Ffrwydrad Tawel: Ivor Davies a Dinistr Creadigol* diolch i ymchwil a gefnogwyd gan Wobr Ddoethurol Gydwethredol a ariennir gan yr AHRC, mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth. Edrychodd yr ymchwil PhD ar ffyrdd newydd i berfformiadau avant-garde dros dro o'r 1960au gael eu harchifo, eu harddangos ac yn bennaf eu casglu gan Amgueddfeydd. Mae gan yr ymchwil hwn y potensial i ehangu sgôp casgliadau celf yr Amgueddfa, gan greu cyfleoedd i arferion ymylol megis perfformiad hanesyddol gael eu cynrychioli a'u hail-arddangos yn y dyfodol.

Amcan Strategol 5

Sefydlu ffordd o weithio sy'n manteisio ar y cysyniad o gasgliad yr Amgueddfa fel endid sengl i wneud y gorau o gydweithredu rhwng ein meysydd casglu traddodiadol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod angen i'r Amgueddfa fabwysiadu dull mwy cyfannol o gasglu. Wrth i ni ail-ganolbwyntio ein terminoleg a galw hwn yn gasgliad, yn hytrach na defnyddio'r lluosog 'casgliadau', mae'n dod yn ffordd o ailfeddwl y ffordd rydym yn ystyried yr eitemau sydd gan yr Amgueddfa. Drwy newid ein ffordd o feddwl, byddwn yn creu dull mwy cyfunedig o gasglu ar draws Amgueddfa Cymru, yn hytrach na chasglu nifer o 'gasgliadau' unigol sy'n cael eu datblygu, eu creu a'u curadu'n annibynnol.

Astudiaeth achos – Medalau

Cedwir medalau ym mhob adran guradurol ar draws Amgueddfa Gymru ar hyn o bryd. Yn wir, mae yna sawl casgliad gwahanol o fewn yr Adran Hanes ac Archaeoleg. Drwy ystyried y casgliad yn un endid, gellir cyfuno'r wybodaeth am y gwahanol 'gasgliadau' hyn a'u trin fel casgliad unigol.

Amcan Strategol 6

Cynnal adolygiad rhyngddisgyblaethol o'r casgliad yn cysylltu hyn â gwaith y sefydliadau partner eraill.

Rhan iachus o strategaeth datblygu casgliad yw adolygu'r casgliad yn rheolaidd. Mae yna achos i gael ei wneud dros adolygu eitemau'n gritigol o dro i dro. Gellir cynnal adolygiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa yn mwyhau potensial y casgliad yn ogystal â nodi ffyrdd y gellir ei ddefnyddio.

I gyflawni hyn, bydd strategaeth Amgueddfa Cymru yn ystyried ymgymryd ag adolygiadau i amlygu meysydd sy'n gorgyffwrdd neu ddyblygiad posibl sy'n cefnogi'r ffordd gyfannol o edrych arno fel endid unigol. Gall adolygiadau casgliad o'r fath achosi gwaith mwy effeithiol rhwng Amgueddfeydd, a thynnu allan cyfleoedd am botensial y casgliad yn y dyfodol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn datblygu strategaeth ar gyfer adolygu ei chasgliad. Rydym yn awgrymu bod adolygiad rhyngddisgyblaethol llawn o'r casgliadau yn cael ei gynnal. Gall hwn amlygu unrhyw orgyffwrdd a all fod rhwng casgliadau gwahanol adrannau a safleoedd yr amgueddfa. Bydd modd cyfiawnhau rhywfaint o hynny, ac mae angen diffinio'r gwahaniaethau hyn. Fodd bynnag, er bod hi'n bosib bod y gwahaniaethau'n gwneud synnwyr ar adeg casglu'r eitemau, mae'n bosib na fyddant yn ddilys o hyd heddiw. Gall adolygiad o'r fath, wedi'i arwain gan y curadur(on) perthnasol ddod â'r wybodaeth yn ôl ynghyd a galluogi adolygiad cyfannol a chritigol i gael ei wneud mewn casgliad. Dylai hwn amlygu'r llinynnau casglu sydd ar waith ar draws gwahanol adrannau ac adnabod potensial y casgliad i chwarae rôl weithredol wrth gyflawni gweithgareddau eraill yr Amgueddfa. Gall ddeilliannau adolygiad o'r fath gynnig gwybodaeth a all fod yn berthnasol i sefydliadau eraill sydd naill ai'n casglu'n weithredol yng Nghymru neu sy'n ymgymryd ag ymchwil i gasgliadau Cymru. Drwy adnabod arwyddocâd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol gwahanol feysydd y casgliad, gallwn helpu i osod casglu'r dyfodol yn ei gyd-destun ehangach.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- Cynnal trosolwg lefel uchel er mwyn gweld lle mae eitemau yn sefyll ar hyn o bryd a pha guraduron sy'n gyfrifol amdanynt.
- Dynodi'r meysydd sy'n gorgyffwrdd, neu ddyblygiad posibl, er mwyn i ni allu eu blaenoriaethu ar gyfer adolygiadau dyfnach.
- Cael delwedd unigol o gryfderau'r casgliad presennol.
- Cael delwedd lawn o wendidau'r casgliad presennol.
- Dynodi'r meysydd hynny o'r casgliad a all fod o arwyddocâd a photensial lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.
- Adolygu'r bylchau a gwendidau a blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.
- Aseu arwyddocâd y casgliad presennol a nodi ffyrdd i gynyddu effeithiolrwydd y casgliad drwy adnabod potensial ar gyfer y dyfodol.

Dylai'r adolygiad hwn arwain at greu dull mwy strategol o gasglu, yn ein galluogi i wneud penderfyniadau o ran beth sy'n cael ei gynnig, neu beth rydym yn ceisio ei gael ar gyfer casgliad yr Amgueddfa yn y dyfodol yn fwy cyfannol. Bydd y strategaeth yn dynodi dulliau newydd o gasglu mewn ffyrdd mwy cymhleth nac yn draddodiadol. Drwy ganolbwyntio ar gasglu a chipio straeon newydd am wrthrychau, mae yna botensial am waith tîm cynyddol yn y broses gasglu, yn hytrach nac unigolion yn unig yn ei wneud. Bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd i guraduron archwilio ffyrdd o gydweithio gyda phobl eraill.

Gall yr adroddiad amlygu meysydd y casgliad a all gael eu defnyddio'n fwy, neu fod yn fwy perthnasol, pe baent yn cael eu defnyddio at ddiben gwahanol neu eu defnyddio rhywle arall yn y dyfodol. Gall fod yna sefyllfaoedd mewn rhai casgliadau lle caiff enghraifft well o rywbeth ei chynnig i'r Amgueddfa, neu y bydd gan yr Amgueddfa fwy nag un copi o'r un eitem. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd cyfiawnhad dros adolygu perthnasedd yr eitem wreiddiol sydd gan yr Amgueddfa, a gall hynny arwain at gael gwared ar eitemau o'r casgliad. Mae'n bosibl y byddai'n well trosglwyddo eitemau fel hyn i gasgliad addysgu neu gasgliad mae modd cyffwrdd ag ef, lle gallent gynnig mwy o gyfleoedd i'w defnyddio. Fel arall, gellir eu trosglwyddo i amgueddfa awdurdodedig arall a fyddai'n eu defnyddio'n fwy. Nid ar chwarae bach y mae gwneud penderfyniadau fel hyn, a rhaid ymgymryd â nhw'n foesebol yn unol â'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad.

Drwy ymgysylltu'n llawn â sefydliadau eraill sydd hefyd yn casglu yng Nghymru, gallwn sefydlu ffyrdd newydd o gasglu sy'n sicrhau y caiff arwyddocâd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y casgliadau ei gynnal er budd pawb sy'n ymwneud â nhw.

Astudiaeth achos – Project Canolwedd, yn galluogi chwiliadau cronfa ddata rhwng casgliadau

Mae dros fil o wrthrychau wedi'u cofrestru ar gronfa ddata casgliadau'r Amgueddfa, ac mae'n adnodd hanfodol ar gyfer caffael gwybodaeth am ein casgliadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd cedwir yr wybodaeth hon mewn nifer o wahanol gronfeydd data, sy'n ei gwneud hi'n anodd chwilio ar draws disgyblaethau. Drwy dynnu data allan a'i roi mewn cronfa ganolog o'r enw 'Canolwedd', gallwn dynnu'r wybodaeth sydd gennym am ein casgliadau at ei gilydd mewn un lleoliad ac ar wedd unffurf. Mae hynny yn ein galluogi i chwilio ar draws cronfeydd data ein casgliadau am y tro cyntaf, yn manteisio i'r eithaf ar natur amlddisgyblaethol ein casgliadau.

10. Mwyhau Mynediad a Lles y Cyhoedd

Caiff mynediad a lles y cyhoedd eu cyflawni drwy fwydo mewn i'r rhaglenni ymgysylltu gweithredol â'r casgliad, yn ogystal â'r systemau rydym yn eu rhoi ar waith er mwyn rheoli'r casgliad.

Bydd y strategaeth yn sicrhau bod yr holl waith newydd a wneir ar gasgliad yn bwydo mewn i'r system rheoli'r casgliadau, y llyfrgell asedau digidol a chronfeydd data eraill. Er mwyn mwyhau mynediad a buddion o gadw casgliad, bydd yn sicrhau y caiff yr holl ddata ei gofnodi'n llawn a bod yr wybodaeth ar gael i bawb.

Bydd yn hwyluso ymgysylltiad cynyddol â'r casgliadau wedi'i llunio drwy raglenni rhannu sgiliau a gweithio gyda phartneriaid cymunedol er mwyn sicrhau bod y sgiliau a ddatblygwyd yn trosi i gyfleoedd eraill am gyflogaeth, addysg bellach a datblygu a ddarperir er enghraifft drwy leoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.

Drwy ddefnyddio profiad ein staff ac arfer gorau a ddatblygwyd mewn amgueddfeydd eraill, byddwn yn sefydlu nifer o ffyrdd i bobl ymgysylltu â chasgliad cenedlaethol Cymru mewn amgylcheddau cymunedol ac ar-lein.

11. Y Cynllun Gweithredu

1. Adnabod ac archwilio cyfleoedd newydd i gasglu er mwyn cynrychioli'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.					
Mewnbyn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
<p>Amser Staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p> <p>Cyllid allanol ar gyfer projectau</p>	<p>Nodi ffyrdd y gall casglu cymunedol a chyfoes bennu beth sydd o Gymru.</p> <p>Nodi methodolegau casglu gaiff eu defnyddio ar draws yr Amgueddfa a all gael eu ehangu er mwyn gwella lles yn y dyfodol.</p> <p>Blaenoriaethu datblygu strategaeth i ymgorffori dull ymgyrchol o gasglu, a'i roi ar waith wrth gasglu ar draws pob disgyblaeth ac adran.</p> <p>Mapio defnydd cyfredol o ddulliau casglu ymgyrchol gan adrannau.</p> <p>Amlinellu cynlluniau ar gyfer casglu yn y meysydd newydd</p>	<p>Creu projectau casglu newydd.</p> <p>Creu rhwydwaith gynaliadwy i alluogi casglu effeithiol o ddeunydd cyfrwng digidol.</p> <p>Adnabod modelau amgen o adeiladu casgliadau a'u rhoi ar waith.</p> <p>Datblygu rhaglen hyfforddi i gefnogi staff wrth greu ffyrdd o gasglu.</p> <p>Defnyddio cyfleoedd recriwtio fel mecanwaith i ymgorffori ffyrdd cynhwysol o gasglu.</p>	<p>Pecynnau offer ar gyfer casglu.</p>	<p>Rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith sy'n cipio'r cyd-destun manwl a all ddarparu adnodd newydd ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.</p> <p>Casglu sy'n ddiogel at y dyfodol.</p> <p>Casglu mewn partneriaethau.</p> <p>Staff yn cael y sgiliau angenrheidiol i weithio'n hyderus mewn ffyrdd cydweithredol a chyfranogol.</p>	<p>Meintiol</p> <p>Nifer o eitemau newydd a dderbyniwyd.</p> <p>Nifer o bartneriaethau a ddatblygwyd neu a gynhaliwyd ar gyfer casglu.</p> <p>Ansoddol</p> <p>Adlewyrchu meysydd casglu newydd yn ein casgliad.</p>

	<p>canlynol: Dylunio, Ffotograffiaeth, Hanes Cymru a Diwylliant Poblogaidd.</p> <p>Amlinellu a dechrau datblygu cynllun ar gyfer casglu deunydd cyfrwng digidol.</p> <p>Adnabod ac archwilio cyfleoedd i gasglu ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gyda sefydliadau partner.</p>				
--	--	--	--	--	--

2. Sefydlu projectau cydweithredu agosach â sefydliadau, grwpiau a chymunedau eraill a fydd yn datblygu casgliad yr Amgueddfa er lles pobl Cymru.

Mewnbyn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
<p>Amser Staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p> <p>Cyllid ar gyfer mewnbyn gan bartneriaid</p> <p>Cyfleoedd am geisiadau am gyllid ar gyfer projectau casglu cymunedol.</p>	<p>Adnabod sefydliadau, grwpiau a chymunedau partner allweddol i gydweithio â nhw.</p> <p>Creu modelau gweithio i hwyluso cydweithrediad â sefydliadau eraill.</p> <p>Adnabod cyllidwyr posibl ar gyfer projectau.</p> <p>Ymateb i Strategaeth Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru pan gaiff ei chyhoeddi.</p>	<p>Datblygu perthnasau strategol effeithiol.</p> <p>Nodi'r meysydd lle rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth a all achosi budd i'r casgliad o ganlyniad i'r gwaith hwn.</p> <p>Creu projectau cydguradu a chasglu mewn partneriaeth â sefydliadau neu grwpiau cymunedol.</p>	<p>Cofnod o gytundeb a strategaethau casglu cyd-drefnedig.</p> <p>Creu system rhaglenni cyhoeddus newydd.</p>	<p>Dull cynaliadwy o gasglu ar draws sefydliadau.</p> <p>Datblygu rhaglenni casglu newydd sy'n cwmpasu'r meysydd casglu newydd.</p>	<p>Meintiol</p> <p>Nifer o bartneriaethau a ddatblygwyd neu a gynhaliwyd.</p> <p>Ansoddol</p> <p>Modelau newydd o weithio a gyhoeddwyd fel astudiaethau achos o arfer gorau.</p>

3. Datblygu ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod y casgliad yn ganolog i bopeth y mae'r Amgueddfa yn ei wneud, ac yn cynhyrchu cyfres o ddeialogau gydag ymwelwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio'r Amgueddfa.

Mewnbwn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
<p>Amser Staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p> <p>Cyllid ar gyfer gwaith allanol.</p>	<p>Datblygu modelau gweithio gyda chymunedau mewn ffyrdd sy'n ysgogi eu hymgysylltu â'r broses gasglu.</p> <p>Arwain a datblygu dull clir a methodolegol o gydgyraddu.</p> <p>Adnabod anghenion y gymdeithas, mewn ffordd drylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth.</p> <p>Ymchwilio i'r ffyrdd y caiff casgliadau eu defnyddio ar hyn o bryd er lles y cyhoedd.</p> <p>Adnabod methodolegau ar gyfer defnyddio casgliadau er mwyn cyflawni buddion er lles y cyhoedd yn ein Hamgueddfeydd ac o</p>	<p>Datblygu a chynnal rhaglenni ar draws yr holl Adrannau a safleoedd yr Amgueddfa sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion llesiant.</p> <p>Datblygu projectau cydguradu.</p> <p>Sefydlu rhestr o'r casgliadau hynny sy'n addas i'w defnyddio yn ein Hamgueddfeydd ac o fewn amgylcheddau cymunedol.</p> <p>Datblygu cynnwys curadurol i ysgogi deialog ac arwain at gyfranogiad.</p> <p>Cefnogi llesiant pobl a llesiant cenedlaethau'r</p>	<p>Cipio a rhannu safbwyntiau amrywiol amryfal ar y casgliad gyda naratifau a dehongliadau newydd ar gael drwy gronfa ddata'r casgliad ar-lein, ac arddangosfeydd newydd.</p> <p>Creu pecynnau offer ar gyfer cydguradu gyda chymunedau a sefydliadau, a chynllun addysgu a datblygu ar gyfer staff.</p> <p>Cefnogi'r agenda sgiliau drwy wirfoddoli, lleoliadau gwaith a phrentisiaethau yn gweithio gyda chasgliadau.</p>	<p>Dehongliadau a chasgliadau yn fwy cynrychioliadol ac amrywiol.</p> <p>Sefydlu modelau llywodraeth mwy hidreiddiol a chynhwysol parthed defnydd a datblygiad casgliadau.</p> <p>Deallir potensial y casgliad o ran amrywiaeth.</p> <p>Gwella sgiliau pobl Cymru, yn arbennig i ddiwallu anghenion y rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf.</p>	<p>Meintiol</p> <p>Targedau cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Nifer o wirfoddolwyr, lleoliadau gwaith neu brentisiaethau.</p> <p>Nifer o gyfranogwyr sy'n cymryd rhan drwy gydgyraddu.</p> <p>Nifer o gasgliadau newydd a dderbyniwyd.</p> <p>Ansoddol</p> <p>Naratifau o'r broses gyflawni projectau newydd.</p> <p>Astudiaeth achos - enghreifftiau o fentrau wedi'u cydguradu.</p> <p>Enghreifftiau astudiaeth achos o les cyhoeddus</p>

	fewn amgylcheddau cymunedol.	dyfodol drwy weithio'n gynaliadwy.			drwy ymgysylltu â chasgliadau.
--	------------------------------	------------------------------------	--	--	--------------------------------

4. Cysylltu ymchwil â gweithgareddau casglu, wrth chwilio am gyfleoedd a chreu cyfleoedd i'w datblygu mewn meysydd newydd a chreu cysylltiadau arwyddocaol â'n rhaglen gyhoeddus.

Mewnbwn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
<p>Amser Staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p> <p>Cyllid y Cyngor Ymchwil</p> <p>Ceisiadau am grantiau ymchwil</p> <p>Cydlynu cyllido projectau ar draws adrannau.</p>	<p>Nodi cyfleoedd newydd ar gyfer casglu drwy ddatblygu projectau ymchwil newydd.</p> <p>Nodi casgliadau cyfredol sy'n cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer adeiladu ar ymchwil cyfredol.</p> <p>Adnabod partneriaid ymchwil a chyllid posibl.</p> <p>Rhoi'r strategaeth ar waith ar y cyd â'r Strategaeth Ymchwil.</p>	<p>Creu rhaglen gyhoeddus o ymgysylltu addysg, digwyddiadau ac arddangosfeydd a chynhyrchir yn uniongyrchol o ganlyniad i ymchwil.</p> <p>Datblygu projectau ymchwil rhyngddisgyblaethol newydd.</p> <p>Datblygu partneriaethau ymchwil newydd.</p>	<p>Gwybodaeth newydd am y casgliad.</p> <p>Rhaglenni a chasgliadau cyhoeddus amrywiol a hygyrch.</p>	<p>Dull cysylltiedig o gasglu yn seiliedig ar ymchwil.</p> <p>Canlyniadau project effeithiol.</p> <p>Allbwn creadigol.</p> <p>Cynnyrch gwaith ymchwil o safon uchel.</p>	<p>Meintiol</p> <p>Nifer o brojectau newydd a ddechreuwyd.</p> <p>Nifer o bartneriaethau newydd a grëwyd.</p> <p>Ansoddol</p> <p>Adborth cadarnhaol o raglenni cyhoeddus.</p>

5. Sefydlu ffordd o weithio sy'n manteisio ar y cysyniad o gasgliad yr Amgueddfa fel endid sengl i wneud y gorau o gydweithredu rhwng ein meysydd casglu traddodiadol.

Mewnbyn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
Amser Staff Gofynion cyllidebol:	Cynnal trosolwg lefel uchel o'r casgliad er mwyn gweld lle mae eitemau yn sefyll ar hyn o bryd a pha guraduron sy'n gyfrifol amdanynt.	Adolygu'r bylchau a gwendidau a blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn y dyfodol yn ôl meini prawf penodol.	Trosolwg clir o'r casgliad presennol. Dull cysylltiedig o gasglu.	Dull rhyngddisgyblaethol o ddatblygu'r casgliad.	Meintiol Ansoddol Dull cynaliadwy o gasglu a dosrannu adnoddau ariannol.

6. Cynnal adolygiad rhyngddisgyblaethol o'r casgliad yn cysylltu hyn â gwaith y sefydliadau partner eraill.

Mewnbyn (adnoddau a chostau)	Gweithgareddau strategol allweddol tymor byr 2017-18	Gweithgareddau strategol allweddol tymor canolig 2018-20	Cynnyrch 2017-20	Canlyniadau 2017-20	Tystiolaeth
<p>Amser Staff</p> <p>Gofynion cyllidebol:</p>	<p>Dynodi'r meysydd sy'n gorgyffwrdd, neu ddyblygiad posibl, er mwyn i ni allu eu blaenoriaethu ar gyfer adolygiadau dyfnach.</p> <p>Ymgymryd â dadansoddiad SWOT o'r casgliad.</p>	<p>Asesu arwyddocâd y casgliad presennol a nodi ffyrdd a all gynyddu effeithiolrwydd y casgliad drwy adnabod potensial ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Trosolwg clir o arwyddocâd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y casgliad presennol.</p> <p>Dull cysylltiedig o gasglu.</p> <p>Cynllun ar gyfer ymgymryd ag adolygiadau manwl mewn meysydd o'r casgliad.</p>	<p>Dull rhyngddisgyblaethol o ddatblygu'r casgliad.</p> <p>Gwella'r casgliad fel adnodd i'w ddefnyddio yng ngweithgareddau eraill yr Amgueddfa.</p>	<p>Meintiol</p> <p>Ansoddol</p> <p>Dull cynaliadwy o gasglu a dosrannu adnoddau ariannol.</p>

12. Llyfryddiaeth

Adair, B., Filene, B. a Koloski, L. (goln). 2011. *Letting Go? sharing historical authority in a user-generated world*. Philadelphia: The Pew Center for Arts and Heritage.

Black, G. 2005. *The Engaging Museum: developing museums for visitor involvement*. Heritage: Care-Preservation-Management.

Dodd, J., Sandell, R., Jolly, D. a Jones, C. (goln). 2008. *Rethinking Disability Representation in Museums and Galleries*. Leicester: RCMG.

Gardner, J.B. 2015. From idiosyncratic to integrated: strategic planning for collections. Yn C. McCarthy gol. *The International Handbooks of Museum Studies: Museum Practice*. Chichester: John Wiley and Sons Ltd.

Gardner, J.B. a Merritt, E. 2004. *The AAM Guide to Collections Planning*. Washington DC: American Association of Museums.

Henderson, J., Kerr, L.-A. a Gwilt, D. 2014. The distributed national collection in Wales: conservation on the national agenda. Yn J. Bridgland, gol. *ICOM-CC 17th Triennial Conference Preprints, Melbourne, 15–19 September 2014*, erthygl 1501, t9. Paris: International Council of Museums.

Knell, S.J. 2004. *Museums and the Future of Collecting*. Aldershot: Ashgate.

Longworth, I.H. 1992. Archaeological Research Collections, in J.M.A. Thompson (gol.). *Manual of Curatorship* (Ail Argraffiad), 522–524. Oxford: Butterworth – Heinemann Ltd.

Lynch, B.T. 2004. *Access to Collections and Affective Interaction with Objects in the Museum*. Traethawd ymchwil PhD heb ei gyhoeddi, University of Manchester.

Merriman, N. 2015. The future of collecting in 'disciplinary' museums: interpretive, thematic, relational. *The International Handbooks of Museum Studies: Museum Practice*. Chichester: John Wiley and Sons Ltd.

Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. 2002. *Golwg ar y Dyfodol*. www.amgueddfa.cymru/245/

Sandahl, J., Ingemann Parby, J., Smith, A., Thorbek, J. a Kryger Broe, L. 2011. Taking the Museum to the Streets. *Museums and the Web*, Philadelphia. www.museumsandtheweb.com/mw2011/papers

Sandell, R. 2017. *Museums, Moralities and Human Rights*. London and New York: Routledge.

Sandell, R., Dodd, J. a Garland-Thompson, R. (goln). 2010. *Re-presenting Disability: activism and agency in the museum*. London and New York: Routledge.

Simon, N. 2010. *The Participatory Museum*. www.participatorymuseum.org/read/

V&A Rapid Response Collecting: <http://www.vam.ac.uk/designandpubliclife/projects/rapid-response-collecting/>

Walker, E.A. 2007. *Aspects of Change in Museum Collecting Practice During the Twentieth Century*. Traethawd ymchwil M.Phil. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

Walker, E.A. 2015. Scratching the surface: new Late Glacial lithic artefacts from south-east Wales. Yn N. Ashton a C. Harris (goln.), *No Stone Unturned: papers in honour of Roger Jacobi*, 113–125. London: Lithic Studies Society.

Watson, S. gol. 2007. *Museums and their Communities*. Leicester: Routledge.

Atodiad A - Gweledigaeth Amgueddfa Cymru

Mae gweledigaeth deng mlynedd Amgueddfa Cymru - Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau - yn amlinellu sut gall yr Amgueddfa wneud gwahaniaeth i Gymru drwy ysbrydoli pobl a newid bywydau. Mae gwerthoedd yr Amgueddfa yn cyd-fynd yn agos â'n gweledigaeth, nod a chyfrifoldebau fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fel elusen gyda Siarter Brenhinol.

- Rydym wedi ymrwymo i **wasanaethu'r cyhoedd** hyd eithaf ein gallu; mae'n ddyletswydd arnom i wasanaethu'r cyhoedd er eu budd nhw a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb i gymryd rhan.
- Rydym yn gweithredu'n **onest**, yn ddibynadwy ac yn foesegol.
- Rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau tegwch, cyfleoedd cyfartal i bawb i gymryd rhan, a chyfiawnder i'r cyhoedd a'n staff.
- Rydym yn parchu **amrywiaeth** ac yn gweithio'n bositif er mwyn sicrhau amgylchedd cynhwysol.

Mae ein blaenoriaethau, a fynegwyd fel ymrwymïadau ym Map y Weledigaeth, wedi'u llywio gan ymgynghoriad â'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, aelodau staff a gwirfoddolwyr ynghyd â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae ein hymrwymïadau yn cwmpasu pum maes allweddol:

- **Gwneud gwahaniaeth i Gymru.** Newid bywydau trwy weithio gyda chyrrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu.
- **Profiad amgueddfa.** Mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau.
- **Profiad ar-lein.** Mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgyssylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu.
- **Addysg a chreadigrwydd.** Mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu.
- **Cyfranogiad a chynhwysiant.** Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau ar draws Cymru a thu hwnt yn llywio a chymryd rhan mewn gweithgareddau cynhwysol a hygyrch trawsddiwylliannol sy'n addas i bawb.

Atodiad B - Y Strategaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae Amgueddfa Cymru wedi'i chynnwys yn y Ddeddf a thrwy hyn mae rhaid i ni osod a chyhoeddi amcanion a lywiwyd i gynyddu ein cyfraniad wrth gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd unrhyw gamau rhesymol er mwyn cwrdd â'r amcanion hynny. Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf ac yn ymgorffori'r nodau llesiant canolog yn ei amcanion.

- **Cymru lewyrchus.** Drwy gydlynw ein Strategaeth Datblygu'r Casgliad â strategaeth ymchwil yn y dyfodol, bydd modd i ni ddatblygu economi gref sy'n seiliedig ar wybodaeth, a bydd modd i ni ei deilwra mewn ffyrdd sy'n ein galluogi i gyflawni ymchwil ar gyfer effaith. Byddwn yn ceisio cyfleoedd sy'n darparu rhaglenni datblygu ar gyfer cymunedau a gwirfoddolwyr a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau drwy ddysgu diwylliannol. Byddwn yn creu Cymru sy'n hyderus yn ei diwylliant, a fynegir drwy gasgliadau grymus a byw sy'n tyfu o hyd. Bydd y rhain yn darparu budd economaidd gyda'r potensial i ddenu ymwelwyr hen a newydd i'n Hamgueddfeydd.
- **Cymru gydnerth.** Bydd y Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn chwarae rôl tuag at fynegi hyder Cymru a'i gallu i fyfyrto arni hi ei hun a'i lle yn y Byd. Bydd yn cyfrannu at greu strategaeth geoamrywiaeth a bioamrywiaeth, ar gyfer cyfraniad Amgueddfa Cymru at amgylchedd bioamrywiol naturiol a'r gwyddorau naturiol, a hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth a'i rôl mewn ecosystemau iachus gweithredol.
- **Cymru iachach.** Bydd y Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn elfen o'n Cynllun Gweithredu iechyd a lles yn y dyfodol. Mae hwn yn amlinellu cyfraniad Amgueddfa Cymru at y fenter genedlaethol hon sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o iechyd a lles drwy ein rhaglenni a phartneriaethau cyhoeddus. Byddwn yn defnyddio ein casgliadau hanes natur i helpu i annog pobl i ddod allan a phrofi byd natur o lygad y ffynnon, a fydd yn arwain at wella eu hiechyd a lles. Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Treftadaeth Byrddau Iechyd Cymru Gyfan i edrych ar gasglu iechyd treftadol a chefnogi iechyd a lles pobl. Gall hyn gynnwys casglu eitemau a ddefnyddir at ddibenion iechyd a lles, neu'r budd y gallent gynnig i bobl Cymru.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal.** Byddwn yn rhoi ffyrdd cyfranogol o weithio wrth wraidd ein penderfyniadau. Byddwn yn gweithio i ddatblygu a chynnal perthnasau allweddol gyda chymunedau i alluogi ein casgliad i fod yn berthnasol i Gymru gyfoes. Byddwn yn datblygu partneriaethau sy'n cyflawni agendâu cenedlaethol ar gyfer casglu sy'n gallu cyflawni newid cadarnhaol i unigolion mewn cymunedau. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd am gynrychiolaeth gynyddol; casglu gyda chymunedau, yn hytrach na throstynt, er mwyn amrywio'r straeon y gallwn eu hadrodd a natur yr hyn sy'n cael ei gasglu. Nod datblygu methodoleg cyd-gynhyrchu yw gwneud strwythurau a modelau llywodraethu'n fwy hydreiddiol a chynhwysol. Bydd yn dynodi cyfleoedd a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar anghenion y rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf.
- **Cymru o gymunedau cydlynus.** Bydd y Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn archwilio i ffyrdd newydd o gasglu digidol a chynyddu'r adnoddau digidol gennym ni sydd ar gael. Drwy gyflawni hyn, bydd yr Amgueddfa yn cynyddu cyfleoedd am brofiadau amgueddfa i bobl yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad at amgueddfa. Byddwn yn defnyddio partneriaid i ddatblygu a llywio rhaglenni cyhoeddus sy'n gwella'r casgliad ac yn ysgogi ysbrydoliaeth a dysgu creadigol ar yr un pryd. Bydd yn dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau gyda'r casgliad ym maes tlodi digidol neu lle maent wedi'u cau allan.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Mae casgliad yr Amgueddfa â'i wreiddiau yng Nghymru. Ynghyd â'r Llyfrgell Genedlaethol, mae'n un o'r prif sefydliadau sydd â chasgliad sy'n cynrychioli amgylchedd diwylliannol, hanesyddol a hanes naturiol Cymru gyfan. Bydd y Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn datblygu ffyrdd newydd i'r casgliad presennol a'r dyfodol fod yn ganolog wrth gyflawni rhaglen arddangosfa, digwyddiadau, addysgu ac ymgysylltu egniol a chynaliadwy i Gymru. Caiff ei ddefnyddio i greu digwyddiadau o safon uchel a chyfleoedd i gymryd rhan yn ein hamgueddfeydd, llefydd cyhoeddus, ar-lein ac o fewn cymunedau.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** Datblygir y casgliad mewn ffyrdd a fydd yn amlygu rôl ehangach y mae Cymru yn ei chwarae yn y byd. Bydd y strategaeth yn gynaliadwy a moesegol yn y ffyrdd y mae'n cyflawni ei amcanion.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sy'n manylu ar y pum ffordd ganlynol o weithio:

- **Tymor Hir.** Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i amddiffyn ein gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- **Atal.** Sut gall weithredu er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.
- **Integreiddio.** Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar y nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithredu.** Cydweithredu gydag unrhyw un arall (gan gynnwys rhannau eraill y cyrff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant.
- **Cymryd rhan.** Pwysigrwydd dod â phobl i mewn sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant, a sicrhau bod y bobl yna'n adlewyrchu amrywioldeb y maes y mae'r corff yn ei wasanaethu.

Atodiad C - Rhesymau'r Amgueddfa a Nodwyd yn yr Ymgynghoriad Staff Dros Gasglu wedi'u Mapio yn Erbyn Nodau Llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pam fod yr Amgueddfa yn casglu	Amcanion Llesiant
Ymgysylltu â'r cyhoedd ac addysgu	Cymru lewyrchus
Cynrychioli treftadaeth Gymreig	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cynrychioli hanes natur yng Nghymru	Cymru gydnerth
Sicrhau eitemau i'w harddangos i'r cyhoedd	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Bod yn storfa ddiwylliant genedlaethol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cadw'r gorffennol i'r dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Adeiladu perthynas gyda chymunedau a sefydliadau eraill	Cymru sy'n fwy cyfartal
Gwneud darganfyddiadau newydd	Cymru lewyrchus
Diweddarau casgliadau a'u cadw yn gyfredol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Galluogi'r Amgueddfa i adrodd amrywiaeth mwy eang o straeon	Cymru lewyrchus
Ysbrydoli creadigrwydd a sgiliau pobl eraill	Cymru iachach
Gwneud gwaith ymchwil newydd	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Galluogi aelodau o gymunedau a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn projectau casglu	Cymru o gymunedau cydlynus